**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 21ain Gorffennaf, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor V. Smith (Vice Chairman)

County Councillors: D. Dovey, A. Easson, S. Jones and S. White

Also in attendance County Councillor(s):

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paula Harris | Democratic Services Officer |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| David Jones | Head of Regulatory Services |
| Richard Jones | Improvement Support Officer |
| Huw Owen | Specialist Environment Health Officer |
| Roger Hoggins | Head of Operations |

**APOLOGIES:**

Councillors A. Webb

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniasom ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sir A. Webb.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd un.

3. **Fforwm cyhoeddus**

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir V. Smith aelod o'i ward, John Nixon, aelod o'r cyhoedd a fynegodd bryderon ynghylch cyflymder y traffig y tu allan i'w gartref ger Gwesty Glan yr Afon a gobeithiai y gallai'r cyfyngiad cyflymder gael ei ostwng o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Sir V. Smith fenter Brynbuga yn ceisio cyfyngiad cyflymder o 20 milltir yr awr gan ddweud mai llefydd i fyw ynddynt oedd trefi a phentrefi, ac nid llefydd i yrwyr yrru drwyddynt.

Mae'r Cynghorydd yn flaenorol wedi gofyn i'r cyfyngiad 20 milltir yr awr gael ei ehangu dros y bont i Woodside, cais a gafodd ei anwybyddu gan yr Adran Briffyrdd.

Awgrymwyd amrywiol ddatrysiadau ac awgrymiadau i swyddogion ond heb lwyddiant.

Awgrymodd Aelod bod Swyddog yn mynychu Cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol i fynd i'r afael â diogelwch y ffordd yn Sir Fynwy gyda gwahoddiad i'r holl aelodau.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 21ain Gorffennaf, 2016 at 10.00 am**

**4. <u>Adroddiad Perfformiad Diogelu'r Cyhoedd 2015/16</u>**

<u>Cyd-destun:</u>

Ymgymryd â chraffu cyflenwi gwasanaeth a pherfformiad ar draws Amddiffyn y Cyhoedd yn 2015/16. Mae'r Is-adran Amddiffyn y Cyhoedd yn cynnwys Iechyd Amgylcheddol, Safonau Masnach a Thrwyddedu. Yr argymhellion yw i'r Pwyllgor ystyried a gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad yn dwyn yr enw 'Perfformiad Amddiffyn y Cyhoedd' ar gyfer y flwyddyn 2015/16.

<u>Materion Allweddol:</u>

Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad ym Mawrth 2014 yn argymell gostyngiadau cyllideb i'r gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd ar gyfer 2014/15 a'r blynyddoedd i ddod. Daeth y gostyngiad i £140,000, yn cynrychioli 7.2% o leihad mewn staff. Cafodd effaith y gostyngiad hwn ei graffu gan y Pwyllgor hwn yn Nhachwedd 2014, cyn i adroddiad fynd i'r Cabinet ar 7fed Ionawr 2015. Ar yr adeg hon gwnaeth y Cabinet gais am adroddiadau bob chwe mis i'r pwyllgor Cymunedau Cryf i fonitro perfformiad ac asesu unrhyw effeithiau negyddol. Y bwriad oedd adolygu cynnydd a chymryd unrhyw gamau gweithredu a dybid yn angenrheidiol.

Cyflwynwyd adroddiad perfformiad i'r Pwyllgor hwn ar 14eg Medi 2015.

Mae'r adroddiad ynghlwm yn crynhoi perfformiad dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2015/16, ac mae'n tynnu sylw at y canlynol –

- mae'r pedwar tîm gwasanaeth, ar gyfer mwyafrif llethol y gwasanaethau maent yn eu cyflenwi, yn cwrdd â goblygiadau cyfreithiol yr Awdurdod mewn perthynas â'r gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd.
- bu ychydig ddirywiad mewn cau cwynion o fewn Amddiffyn y Cyhoedd, er enghraifft cwynion yn ymwneud â sŵn ac achosion statudol eraill o niwsans.
- bydd adroddiadau chwe misol yn parhau i gael eu gwneud i'r Pwyllgor hwn i asesu effaith gostyngiad yn y gyllideb ar berfformiad Amddiffyn y Cyhoedd.
- mae archwiliadau diweddar, gan Swyddfa Archwiliad Cymru ac Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yn dangos bod perfformiad cyfredol yn foddhaol o fewn Iechyd Amgylcheddol, ond byddai'r gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cymryd arno unrhyw ddyletswyddau statudol newydd sy'n amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd.

<u>Craffu Aelodau:</u>

Gofynnodd Aelodau faint o staff oedd gan y Tîm Iechyd Amgylcheddol a dywedwyd wrthym 6.5 ynghyd â myfyriwr.

Dywedwyd wrthym fod swyddogaeth y Myfyriwr yn annatod i'r tîm. Adolygwyd holl ymweliadau'r myfyriwr am yr ychydig fisoedd cyntaf nes y teimlwyd bod y myfyriwr yn gallu gweithio'n annibynnol. Cynhwysai dyletswyddau'r myfyriwr ymweld â safleoedd gadael sbwriel yn anghyfreithiol, casglu samplau dŵr, ymweld â safleoedd lle mae baw cŵn.

Dywedodd y Swyddogion wrth y Pwyllgor am brosiectau cyfredol megis yr Eisteddfod, lle'r oedd eu cyfrifoldebau'n rhychwantu sawl maes gan gynnwys niwsans sŵn a glanweithdra bwyd.

Gofynnodd Aelod sut oedd y tîm yn delio â llygredd aer a dywedwyd wrthym fod Iechyd Amgylcheddol yn monitro aer yn rheolaidd, Ar hyn o bryd mae gan Frynbuga a Chas-gwent drafferthion gydag ansawdd aer.

Trafododd yr Aelodau orfodaeth parthed baw cŵn a gollwng sbwriel gydag Aelod yn dweud wrth y Pwyllgor am Gyngor lleol sy'n cyhoeddi lluniau o aelodau'r cyhoedd yn gollwng sbwriel fel ataliad.

Llongyfarchodd Aelodau'r Tîm Amgylcheddol ar ei waith a gofynnodd i swyddogion beth oedd eu pryderon. Mewn ymateb dywedwyd wrthym fod y tîm yn gweithio ar gapasiti llawn a byddai'r pryderon a gynyddai llwyth gwaith yn creu anhawster gan y teimlid bod y tîm eisoes yn orlwythog. A'u bod eisoes mor greadigol â phosibl gyda'u hamser.

Ofnai Aelodau petai'r gwasanaeth yn cael ei ymestyn ymhellach byddai'n effeithio ar iechyd cyhoeddus sy'n hollbwysig.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion drosglwyddo'u diolchiadau nôl i'r tîm cyfan am y gwaith a wnânt.

Roedd pryderon am iechyd cyhoeddus ac agweddau o'r adroddiad. Mae'r Pwyllgor yn awchus i adolygu'r materion ymhen chwe mis.

Yn ystod proses gosod y gyllideb, byddem yn hoffi'i gweld yn cael ei thrin ar wahân o ganlyniad i'r pryderon a fynegwyd.

5. **Adroddiad Perfformiad 2015/16: Amcanion Gwella a Chytundeb Canlyniad**

Cyd-destun:

Ymgymryd â chraffu cyflenwi gwasanaeth a pherfformiad ar draws Amddiffyn y Cyhoedd yn 2015/16. Mae'r Is-adran Amddiffyn y Cyhoedd yn cynnwys Iechyd Amgylcheddol, Safonau Masnach a Thrwyddedu. Yr argymhellion yw i'r Pwyllgor ystyried a gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad yn dwyn yr enw 'Perfformiad Amddiffyn y Cyhoedd' ar gyfer y flwyddyn 2015/16.

Materion Allweddol:

Mae ffocws gwahanol i'r Cytundeb Canlyniadau a'r Amcanion Gwelliant:

**Amcanion Gwelliant**

Gosodir Amcanion Gwelliant yn flynyddol gan y Cyngor i gyflenwi ar flaenoriaethau. Er gwaethaf amcanion yn cael eu ffocysu ar yr hir dymor mae'r gweithgareddau penodol sy'n eu cefnogi'n ffocysu'n arbennig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae gweithgarwch sy'n cyfrannu at rai amcanion yn trawstorri cyfrifoldebau'r Pwyllgor Dethol a chafodd y rhain eu hadrodd i'r pwyllgor(au) perthnasol eraill. Felly awgrymir bod aelodau'n

canolbwyntio'u craffu ar y gweithgarwch sy'n berthnasol i'r Pwyllgor gan ystyried ei gyfraniad i'r amcan fel cyfanwaith.

Rhoddir sgôr i Amcanion Gwelliant yn seiliedig ar fframwaith gwerthuso Hunan-arfarnu'r Cyngor., fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwelliant 2015/17, Tabl 1, a chofnodir perfformiad yn eu herbyn yng Ngham 2 y Cynllun Gwelliant a gyhoeddir ym mis Hydref bob blwyddyn.

**Cytundeb Canlyniadau**

Mae'r Cytundeb Canlyniadau'n gytundeb gyda Llywodraeth Cymru am gyfnod o dair blynedd, lle mae angen i'r Cyngor gyflenwi ar weithgarwch perfformiad a thargedau cysylltiedig sy'n cyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu. Roedd y Cytundeb yn  berthnasol ar gyfer y cyfnod o  2013 i 2016.

Yn haf 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y flwyddyn derfynol o gyllid am berfformiad yn 2015-16. Ni fyddai cyllid mwyach yn gysylltiedig â pherfformiad yn y Cytundeb Canlyniadau a byddai'n cael ei dreiglo'n uniongyrchol  i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2016-17. Golyga hyn fod y taliadau yn erbyn y targedau yn y cytundeb ar gyfer ar gyfer 2015-16, wedi'i sicrhau. Dyfarnwyd i'r Cyngor hefyd daliad llawn yn y ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag o gofio'r pwysigrwydd a roddwyd ar y cytundeb fel rhan o fframwaith perfformiad y Cyngor cyflawnwyd gwerthusiad o berfformiad a gyrhaeddwyd dros y tair blynedd o gytundeb. Mae'r y gwerthusiad yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a'r dangosyddion perfformiad a osodwyd yn y Cytundeb Canlyniadau.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Mae Atodiad 3 yn amlinellu Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd yn y garfan dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac sydd dan gyfrifoldeb y Pwyllgor. Y prif bwrpas yw tynnu sylw at y perfformiad a gyflawnwyd yn 2015/16. Mewn rhai achosion gallai hyn arwain at ddyblygu dangosyddion a gynhwysir eisoes mewn rhannau eraill o'r adroddiad. Lle cyfeiria dangosyddion at berfformiad gwasanaethau sydd dan gyfrifoldeb mwy nag un pwyllgor caiff y rhain hefyd eu hadrodd i'r pwyllgorau perthnasol eraill.

Craffu Aelodau:
:

Yn ystod trafodaeth gofynnodd yr Aelodau am lefelau salwch cynyddol a mynegi pryderon ynghylch llesiant staff.

Gofynnwyd paham fod canran y gwerthusiadau wedi disgyn, flwyddyn ar ôl blwyddyn.
Dywedwyd wrthym fod problemau cofnodi gyda dyfais 'Clocio Mewn, Clocio Allan' y Sir, a oedd yn cael eu datrys..

Gofynnwyd paham mai 76% oedd wedi manteisio ar y tocyn bws gostyngol a dywedwyd wrthym fod pob person oedd wedi gwneud cais amdano wedi'i dderbyn.  .

**Casgliad y Pwyllgor:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad manwl ac edrychai ymlaen at y diweddariad nesaf ymhen chwe mis yn Nhachwedd.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 21ain Gorffennaf, 2016 at 10.00 am**

**6. Gwasanaethau Pobl**

Cyd-destun:

Cyflwyno adroddiad Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf gydag adroddiad cyntaf Blynyddol Gwasanaethau Pobl er gwybodaeth a sylwad. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Dethol yn ystyried cynnwys adroddiad blynyddol Gwasanaethau Pobl a dynodi unrhyw faterion y byddent yn dymuno i'r Tîm Gwasanaethau Pobl eu hystyried yn y dyfodol.

Materion Allweddol:

Mae'n pobl yng nghanol popeth a wnawn. Pwrpas casgliadol, angerdd a thalentau ein cydweithwyr, ar ac oddi ar y gyflogres, yw'r sylfeini i'n llwyddiant fel cyngor ac fel sir..
Rydym y credu bod pobl yn ymuno â'r gwasanaethau cyhoeddus i wneud gwahaniaeth ac rydym wedi datblygu gwasanaethau'n pobl er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i ymgysylltu, cefnogi a datblygu'n gweithlu, i sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny'n union, gwneud gwahaniaeth.

Er mwyn darparu eglurder pwrpas a chyfeiriad aethom ati i ddatblygu Strategaeth Pobl a Sefydliadau, yn cael ei hategu gan raglen gyflenwi uchelgeisiol. Rydym wedi cofnodi cynnydd yn erbyn y strategaeth yn 2015/16 ac mae Adroddiad blynyddol Gwasanaethau Pobl sydd ynghlwm, Mehefin 2016, yhn darparu crynodeb o weithgaredd yn erbyn ein meysydd gwelliant yn ystod y flwyddyn.

Gallwn fod yn falch o'r hyn mae'r gwasanaeth wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn a bydd hwn nawr yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer monitro gweithgarwch yn y dyfodol. Mae dod â'r gwahanol elfennau o wasanaethau'r Bobl ynghyd wedi cyflenwi gwasanaeth mwy clir, effeithiol ac effeithlon wedi'i drefnu o gwmpas diben cyffredin.

Craffu Aelodau:

Cwestiynodd Aelodau perthnasedd y data o ystyried dyddiad yr arolwg. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw gynlluniau i wneud yr arolwg yn flynyddol, teimlwyd bod ansawdd y cwestiynau yn hollbwysig, gyda staff yn cael eu holi ynghylch y cwestiynau y dymunent eu hateb.

Mynegodd Aelodau y teimlent fod y canlyniadau'n eu calonogi nad oedd y staff yn cael eu hanwybyddu.

Siaradodd Aelod ynghylch y Cyngor yn adeiladu strwythur tebyg i strwythur rhaglen Buddsoddi mewn Pobl; gyda phwysigrwydd yn cael ei osod ar siarad â staff, nodi'u diddordebau, meithrin eich staff eich hun.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod mentrau newydd yn digwydd, gyda llwybrau cod a hyfforddiant eisoes yno, mae'r cyfryngau cymdeithasol nawr yn chwarae rhan bwysig yn denu pobl i'r swyddi o fewn y Cyngor.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 21ain Gorffennaf, 2016 at 10.00 am**

Gofynnodd y Pwyllgor am werthusiadau staff a dywedwyd wrthynt am y gwasanaeth newydd roddai bwyslais ar ansawdd yn hytrach na maintioli.

Dywedwyd wrthym fod gan y tîm arweinyddiaeth ddyletswydd i ofalu am ei staff.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd am gopi o ffurflen arolwg staff 2014/15.

Bydd y Pwyllgor yn edrych at adolygu hyn yn rheolaidd.

## 7. Cymunedau Cryf Dewiswch Cynllunydd Gwaith i'r Dyfodol

Trafododd Aelodau'r Rhaglen Waith ar gyfer Pwyllgor dethol Cymunedau Cryf. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Contractwr MRF
- Toiledau cyhoeddus
- Goleuadau Stryd
- Cyflymdra ar yr Heolydd

Ychwanegwyd y rhain at y rhaglen waith.

Gofynnir i GAVO fynychu'r cyfarfod nesaf.

## 8. Cabinet a'r Cyngor Ymlaen Gwaith Cynlluniwr

Ystyriodd yr Aelodau Flaen-ddyddiadur Gwaith y Cabinet – ni ddynodwyd unrhyw faterion oedd angen craffu cyn gwneud penderfyniad.

## 9. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

15fed Medi 2016 am 10am.

**The meeting ended at 1.46 pm**